

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad <i>(I'w llenwi gan Uned y Gymraeg):</i>				
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Angharad Huws				
Dyddiad:	30/10/2014, diweddarwyd 15/12/2015				
Arweinydd polisi:	Gwilym Hughes				
Manylion cyswllt:					
Math o Raglen/Prosiect					
<input type="checkbox"/> Polisi <input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen <input checked="" type="checkbox"/> Deddfwriaeth <input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad <input type="checkbox"/> Grant <input type="checkbox"/> Gwasanaethau <input type="checkbox"/> Newid busnes <input type="checkbox"/> Contractau, tendrau <input type="checkbox"/> Seilwaith <input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf <input type="checkbox"/> TGCh <input type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod)					
Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect?					
Oes yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).					
O dan £25k	£25 - £49k	£50 - £249k	£250k - £1miliwn	Dros £1miliwn	
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	
O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?					
Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Anhysbys
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:					
1 Mai 2015 — Cyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mai – 20 Hydref 2015 — Cyfnod 1 21 Hydref – 26 Tachwedd 2015 — Cyfnod 2 27 Tachwedd 2015 – 2 Chwefror 2016 — Cyfnod 3 Mis Mawrth / Mis Ebrill 2016 — Cydsyniad Brenhinol Gwanwyn 2016 ymlaen — Gweithredu					

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?

Bydd y Bil yn rhan o gyfres o ddeddfwriaeth, polisi, cyngor a chanllawiau a fydd yn gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau presennol ar gyfer gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru a'i reoli mewn ffordd gynaliadwy. Yn fras bydd y Bil yn gwneud y canlynol: gwarchod adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig yn fwy effeithiol; gwella'r systemau sydd eisoes yn bodoli ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol mewn ffordd gynaliadwy; cyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir ynghylch yr amgylchedd hanesyddol.

Bydd darpariaethau'r Bil yn gwneud y canlynol:

- galluogi Gweinidogion Cymru i ddod â gwaith nas awdurdodwyd ar henebion cofrestredig i ben ar unwaith a'i gwneud yn haws i gamau gael eu cymryd yn erbyn y rhai sydd wedi difrodi neu ddinistrio henebion;
- galluogi awdurdodau i weithredu'n gyflym os bydd adeilad rhestredig yn cael ei beryglu gan waith nas awdurdodwyd a rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt wrth ymdrin ag adeiladau hanesyddol y mae angen gwneud gwaith arnynt ar fyrder er mwyn eu gwarchod rhag dirywio ymhellach;
- ei gwneud yn haws i berchenogion neu ddatblygwyr greu defnyddiau newydd cynaliadwy ar gyfer adeiladau hanesyddol anrhestredig drwy lacio'r amodau ar gyfer ceisiadau am dystysgrifau imiwnedd rhag rhestru;
- galluogi perchenogion asedau hanesyddol i negodi cytundebau partneriaeth ag awdurdodau cydsynio a fydd yn para sawl blwyddyn, gan ddileu'r angen i gyflwyno ceisiadau am gydsyniad ar gyfer gwaith tebyg dro ar ôl tro ac annog rheoli adeiladau neu henebion mewn ffordd fwy cyson a chydlynol;
- ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chynnal rhestr o enwau llefydd hanesyddol yng Nghymru;
- sicrhau dyfodol mwy sefydlog i gofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru, sy'n darparu gwybodaeth a chyngor manwl ar yr amgylchedd hanesyddol i awdurdodau cynllunio lleol a'r cyhoedd;
- sicrhau bod strwythurau sy'n bodoli eisoes ar gyfer dynodi asedau hanesyddol o bwys cenedlaethol yn fwy agored a thryloyw drwy gyflwyno ymgynghoriadau ffurfiol â pherchenogion a sefydlu system i adolygu penderfyniadau;
- sefydlu panel annibynnol i roi cyngor ar bolisïau a strategaethau ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol ar lefel genedlaethol yng Nghymru.

Y weledigaeth sy'n gysylltiedig â'r Bil.

- Nod Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yw gwarchod ein gorffennol i Gymru'r dyfodol.
- Os ydym yn deall ac yn gwerthfawrogi ein hanes, byddwn yn fwy tebygol o ofalu am ein dyfodol.
- Rydym am reoli amgylchedd hanesyddol Cymru fel y gall pobl barhau i'w werthfawrogi a dysgu ohono am genedlaethau i ddod.
- Rydym am weld systemau mwy tryloyw, effeithiol a hyblyg ar gyfer gwarchod ein hamgylchedd hanesyddol a'i reoli mewn ffordd gynaliadwy er mwyn sicrhau y gall ein hasedau diwylliannol gwerthfawr barhau i ddod â manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i bobl Cymru.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?

a

Beth fydd yr effeithiau os na fydd y polisi'n cael ei weithredu?

Cynhaliwyd proses ymgysylltu helaeth yn ystod 2012 a 2013 er mwyn pennu cwmpas y cynigion ar gyfer y Bil a pholisi amgylchedd hanesyddol ehangach.

- Gweithdai sganio'r gorwel — Daeth 90 o bobl i'r gweithdai hyn a gynhaliwyd ym mis Chwefror a mis Mawrth 2012 er mwyn ystyried y ffactorau a allai lunio Cymru yn y dyfodol.
- Gweithdai sector — Cynhaliwyd pedwar gweithdy ym mis Mai a mis Mehefin 2012, a ymdriniodd â'r meysydd canlynol: yr amgylchedd hanesyddol adeiledig; archeoleg; parciau, gerddi a thirweddau hanesyddol; a pherchenogion asedau hanesyddol.
- Cynhadledd Treftadaeth — Daeth bron 150 o bobl i'r gynhadledd a chynhaliwyd gweithdai i edrych ar ddyfodol ein fframwaith gwarchod.
- Sioeau teithiol i'r trydydd sector — Cynhaliwyd y digwyddiadau galw heibio hyn yn Aberhonddu, Caerfyrddin a Chonwy, gyda'r nod o ymgysylltu â'r trydydd sector a chymunedau lleol er mwyn nodi blaenoriaethau lleol ar gyfer gwarchod yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Daeth dros 120 o bobl i'r sesiynau, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â CGGC a CyMAL.
- Daeth ymgynghoriad 12 wythnos ynghylch cynigion ar gyfer y Bil a mesurau cysylltiedig i ben ar 11 Hydref 2013. Cafwyd ymateb ardderchog i'r ymgynghoriad a derbyniwyd 177 o ymatebion ysgrifenedig. At hynny, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau gyda phobl ifanc a rhanddeiliaid.

Cynhaliwyd nifer o raglenni ymchwil bach yn 2012 a 2013 er mwyn datblygu'r sail dystiolaeth ar gyfer y penderfyniadau polisi ac ystyried sut y byddai cynigion posibl yn gweithio yn ymarferol. Edrychodd y gwaith ymchwil ar bynciau megis rhestrau rhanbarthol o asedau hanesyddol, cytundebau partneriaethau treftadaeth a gwarchod ardaloedd pwysig yn yr amgylchedd hanesyddol.

Yn ystod y digwyddiadau hyn ystyriwyd opsiynau gwahanol ar gyfer gwarchod yr amgylchedd hanesyddol, ond, yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr o'r farn bod y system bresennol ar gyfer dynodi asedau hanesyddol yn rhesymol a bod y rheolaethau deddfwriaethol yn eithaf cadarn a'u bod yn gweithio'n dda. Nid oedd unrhyw awydd gwirioneddol i newid y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwarchod treftadaeth yn sylweddol.

Yn ystod Cyfnod 1 a 2 o broses graffu'r Cynulliad Cenedlaethol, pwysleisiwyd pwysigrwydd enwau lleoedd hanesyddol o ran hanes cymdeithasol ac ieithyddol. Roedd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol o blaid deddfu ar y mater. Roedd adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor yn cynnwys argymhelliad i gynnwys cyfeiriad penodol at enwau lleoedd hanesyddol yn y cofnodion amgylchedd hanesyddol. Yn ystod cyfnod 2, cyflwynodd Llywodraeth Cymru welliant i'r Bil a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru greu a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r cofnodion amgylchedd hanesyddol ddarparu mynediad i'r rhestr honno. Ystyriwyd sawl opsiwn o ran polisiau cyn cyflwyno'r gwelliant hwn.

Cyflwynir yr opsiynau a ystyriwyd ar gyfer pob mesur yn y Bil yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil.

Os na chaiff y Bil ei basio a'i roi ar waith, bydd yr amgylchedd hanesyddol yn aros yn ei gyflwr presennol, bydd yn agored i ddifrod ac ni fydd yn gwella dros amser. Mae'n rhaid cadw a rheoli'r amgylchedd hanesyddol fel y gall y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol barhau i fwynhau'r nifer fawr o fuddiannau y mae'n eu cynnig. Ar hyn o bryd, cydnabyddir bron 30,000 o adeiladau rhestredig a mwy na 4,000 o henebion cofrestredig yng Nghymru fel safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol ac maent yn cael eu diogelu drwy weithdrefnau cydsyniad arbennig. Yn ogystal, ni fyddai'n ofynnol llunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg - iaith fyw: iaith byw?

Mae'r Bil yn dechnegol ac mae'n anodd cysylltu'r darpariaethau'n uniongyrchol â strategaeth Llywodraeth Cymru o ran yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, bydd y gwelliant i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd enwau lleoedd hanesyddol - ac mae llawer o'r rheiny yn Gymraeg - a bydd yn rhoi mynediad i aelodau'r cyhoedd at wybodaeth gywir a dibynadwy am yr enwau hynny. Yn ogystal, wrth ystyried nodau ehangach polisi amgylchedd hanesyddol ac iaith fyw: iaith byw gellir dangos cysylltiad clir.

Mae'r amgylchedd hanesyddol yn gwneud cyfraniad pwysig at natur unigryw ardal leol ac yn creu ymdeimlad cryf o le sy'n ysbrydoli balchder a hyder cymunedol ac yn rhoi ymdeimlad o berthyn i bobl sy'n hybu eu lles. Mae amgylchedd hanesyddol ardal yn bwysig iawn i gymunedau lleol ac yn hanfodol i gynnal traddodiadau, gan gynnwys y defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r cysylltiad â Strategaeth y Gymraeg i'w weld yn y camau i ddiogelu: nodweddion ardal ddaearyddol, gan gynnwys adnoddau hanesyddol neu ddiwylliannol, safleoedd ag arwyddocâd Cymraeg neu synnwyr o Gymru, a chysylltiadau twristiaeth.

Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?

h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Mae'r gwelliannau a wnaed i'r Bil yn ystod Cyfnod 2 o'r broses graffu yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg fel a nodir isod.

Effeithiau cadarnhaol uniongyrchol

- i. Yn ystod Cyfnod 2 o'r broses graffu, cyflwynodd Llywodraeth Cymru welliant yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru. Bydd y rhestr, y bydd mynediad ati ar gael drwy'r cofnodion amgylchedd hanesyddol, yn helpu i godi ymwybyddiaeth o werth a phwysigrwydd enwau lleoedd hanesyddol, gan gynnwys enwau Cymraeg wrth gwrs, o ran ein hanes cymdeithasol ac ieithyddol.

Effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol

- i. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu panel cynghori ar yr amgylchedd hanesyddol. Bydd y panel yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar bolisi amgylchedd hanesyddol a sut i ddatblygu a chyflawni rhaglenni gwaith strategol.
- ii. Bydd darpariaethau yn y Bil a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein hymrwymiad i'r Gymraeg. Mae gofyniad i ymgynghori â pherchenogion a meddianwyr adeiladau hanesyddol a henebion y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu dynodi, yn ogystal â phwerau i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol gyflwyno ac arddangos hysbysiadau gwahanol pan fydd gwaith nas awdurdodwyd wedi'i wneud. Caiff yr hysbysiadau hyn eu harddangos yn ddwyieithog a bydd unrhyw ohebiaeth â pherchenogion a meddianwyr yn eu dewis iaith.

Effeithiau andwyol

- i. Bydd y Bil yn disodli gofyniad ar awdurdodau lleol i greu a chynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol (CAHau). Mae'r wybodaeth a geir yn y CAHau yn fan cychwyn pwysig ar gyfer prosesau rheoli, cadwraeth, gwaith maes ac ymchwil, ac ymgysylltu â'r cyhoedd a gweithgareddau allgymorth i'r cyhoedd sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Ar hyn o bryd mae'r cofnodion hyn yn cael eu cynnal gan y pedair ymddiriedolaeth archeolegol yng Nghymru ac mae'r trefniant hwn yn debygol o barhau yn y dyfodol gyda'r awdurdodau cynllunio lleol yn datblygu cytundeb lefel gwasanaeth â'r Ymddiriedolaethau. Ar hyn o bryd nid yw'r CAHau yn adnoddau dwyieithog ac, oherwydd nifer y cofnodion a geir yn y CAHau (mwy na 150,000 o brif gofnodion), byddai'n ddrud sicrhau bod yr holl gofnodion cyfredol ar gael yn ddwyieithog. Mae trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda Chomisiynydd y Gymraeg ynghylch sut y bydd y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn y dyfodol, a bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i hyn cyn i'r ddyletswydd gychwyn. Mae'n werth nodi bod yr ymddiriedolaethau yn cynnig gwasanaethau cysylltiedig, megis dehongli'r cofnodion a chyngor cynllunio, yn ddwyieithog ac mae gan bob un bolisi iaith Gymraeg.

Er mwyn rhoi Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ar waith yn effeithiol bydd angen system gwybodaeth ddaearyddol i'r cyhoedd ar gyfer pob ased â dynodiad cenedlaethol. Ar hyn o bryd, mae system fewnol Cadw yn uniaith Saesneg ac mae'n cynnwys cofnodion a disgrifiadau o'r holl adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, parciau hanesyddol a gerddi ac asedau hanesyddol cofrestredig eraill yng Nghymru. Bwriedir i ryngwyneb cyhoeddus y wefan fod yn ddwyieithog ond bydd y cofnodion cyfredol, sy'n cynnwys y wybodaeth hanesyddol am yr asedau unigol, yn Saesneg yn unig. Mae Hysbysiad Cydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015 yn darparu ar gyfer esemptiad ar gyfer cofnodion hanesyddol ac archifau a baratowyd cyn 30 Mawrth 2016.

Cyfleoedd a gollwyd

- i. Yn ystod y broses graffu ar y Bil, galwodd rhai Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid eraill am i'r Bil warchod enwau llefydd mewn rhyw ffordd. Wrth

baratoi gwelliannau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyfnod 2, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer gwarchod enwau lleoedd hanesyddol. Byddai system warchod ffurfiol yn ddrud, yn gymhleth ac yn anodd ei gweinyddu a'i gorfodi. Hefyd, byddai gofyn sefydlu corff i weinyddu system o'r fath.

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?

Mae gan y Bil amrywiaeth eang o randdeiliaid - o arbenigwyr yn y sector i'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn gwarchod yr amgylchedd hanesyddol. Wrth ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, cynhaliwyd nifer o weithdai a sioeau teithiol arbenigol a chyffredinol. Rhoddwyd cyfle i gyfrannu yn y digwyddiadau hyn yn Gymraeg. Yn gyffredinol, mae rhanddeiliaid wedi ymateb yn gadarnhaol i gynigion y Bil. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at nifer o faterion a allai effeithio'n anuniongyrchol ar y Gymraeg, gan gynnwys:

- system ffurfiol i warchod enwau lleoedd Cymru;
- gwarchod adeiladau capeli yng Nghymru;
- pwysigrwydd gwaith ymchwil trylwyr sy'n cyfrannu at ein gwybodaeth am ein gorffennol;
- adeiladau brodorol adfeiliedig, sy'n ymgorffori hanes, straeon, sgiliau adeiladu traddodiadol a diwylliant lleol ardaloedd, ymhlith pethau eraill, ac na ellir eu hadfer na'u hatgynhyrchu byth;
- yr angen i aildefnyddio adeiladau hanesyddol fel asedau cymunedol, e.e., cartrefi fforddiadwy i bobl leol;
- asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig;
- cerrig arysgrifedig canoloesol cynnar.

Ni fydd y Bil yn ymdrin yn uniongyrchol â'r materion hyn, ond bydd y polisi a'r canllawiau ehangach yn berthnasol. Er enghraifft, mae cynllun gweithredu strategol ar gyfer addoldai wedi'i ddatblygu, mae canllawiau ar nodi asedau o ddiddordeb lleol wrthi'n cael eu llunio ac mae Cadw yn gwneud gwaith ehangach sy'n gysylltiedig â gwybodaeth, cadwraeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

Fel a nodwyd uchod, mae'r Bil bellach yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol, ond nid yw hyn yn cynnwys system warchod ffurfiol. Rydym wedi derbyn llawer o ohebiaeth gan Aelodau'r Cynulliad ac aelodau'r cyhoedd yn gofyn am ailystyried y mater hwn gyda'r bwriad o gyflwyno system warchod.

Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod. (Gellid defnyddio hwn yn y Tribiwnlys Iaith Gymraeg yn y dyfodol)

Dd/B

Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol? e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?

Dd/B

CAM 2 – NODI AC ASESU EFFEITHIAU

Crynodeb o'r Aseiad Effaith

Crynowch yr aseiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.

Effeithiau cadarnhaol:

Y Panel Cyngori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru — Bydd y panel yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru ar bolisiau a strategaethau ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Bwriedir i'r cyngor ymdrin â themâu cadwraeth, gwybodaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i ystyriaeth o'r Gymraeg gael ei hintegreiddio yn y cyngor a roddir i Weinidogion Cymru.

Cyfanswm y sgôr: 10

Rhestr o enwau lleoedd hanesyddol - Bydd y rhestr yn darparu tystiolaeth werthfawr iawn ynghylch hanes diwylliannol ac ieithyddol. Bydd yn codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd drwy ddarparu mynediad hawdd i wybodaeth a gesglir o bob cwr o Gymru am ein treftadaeth gyfoethog o enwau lleoedd, gan gynnwys y rhai Cymraeg. Gallai'r rhestr hefyd gael ei defnyddio fel sail ar gyfer ystyried unrhyw gynig i newid enw lle hanesyddol. Fodd bynnag, ni fydd yn cyflwyno system warchod.

Cyfanswm y sgôr: 12

Effeithiau negyddol:

Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol greu a chynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol, er y byddant yn gallu rhoi'r gwaith hwn ar gontract i drydydd parti. Ar hyn o bryd nid yw'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn adnoddau dwyieithog ac, oherwydd nifer y cofnodion a geir (mwy na 150,000 o brif gofnodion), byddai'n ddrud darparu'r holl gofnodion cyfredol yn ddwyieithog. Mae rhai o'r cofnodion yn ddogfennau papur: adroddiadau o waith cloddio, ffotograffau, mapiau a chynlluniau, ac ati. Fodd bynnag, mae dehongli'r wybodaeth a geir yn y CAH yn un o elfennau pwysig y gwasanaeth a ddarperir gan ymddiriedolaethau archeolegol Cymru ac maent yn cynnig y gwasanaeth hwn yn ddwyieithog. Mae trafodaethau wedi'u cynnal â Chomisiynydd y Gymraeg, a bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i sut y bydd y cofnodion amgylchedd hanesyddol yn bodloni Safonau'r Gymraeg.

Cyfanswm y sgôr : 12

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?

Ni fydd y Bil ar ei ben ei hun yn rhoi llawer o gyfle i hyrwyddo'r Gymraeg, ond mae'r amgylchedd hanesyddol yn chwarae rôl hollbwysig yn hunaniaeth a diwylliant Cymru ochr yn ochr â'r Gymraeg. Bydd y gwelliant i wneud llunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yn ofynnol yn creu adnodd gwerthfawr iawn ar gyfer gweld sut y mae enwau lleoedd wedi newid dros amser. Bydd yr wybodaeth hon yn helpu i olrhain datblygiad hanesyddol yr iaith, sut y mae cymunedau wedi symud a rhyngweithio a sut y mae cymdeithas wedi newid. Bydd darparu'r wybodaeth hon ar-lein drwy gofnodion amgylchedd hanesyddol yn gyfle i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

Os gellir cael cyllid ychwanegol yn y dyfodol i gefnogi gwaith curadu a gweithgareddau allgymorth yn gysylltiedig â'r rhestr, gallai'r rhestr gael effaith fwy ar y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae Cadw yn buddsoddi gryn dipyn yn adrodd y straeon sy'n gysylltiedig â'i safleoedd. Mae'r Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio i'r gwaith hwn. Er enghraifft, mae pyst gwrando ac aps a ddatblygwyd yn ddiweddar ar safleoedd Cadw yn ddwyieithog ac maent yn helpu i ddod â hanes y safleoedd hyn yn fyw, gan gynnwys yr effaith y mae'r iaith wedi'i chael ar ein hanes.

Mae penderfyniad Cadw i gaffael Cae'r Gors hefyd yn dangos sut y gall gwarchod yr amgylchedd hanesyddol yn well hyrwyddo'r Gymraeg yn anuniongyrchol. Bu'r awdures Gymraeg Kate Roberts, a aned yn 1891, yn byw yno pan oedd yn blentyn, o bedair i ddeunaw oed. Hi oedd y fenyw gyntaf i gael ei chydabod yn ffigwr pwysig a dylanwadol yn hanes llenyddiaeth Gymraeg.

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:

Nid oes fawr ddim dystiolaeth uniongyrchol y gellir ei defnyddio i fesur effeithiau'r Bil ar y Gymraeg. Nododd cyhoeddiadau, megis *Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru*, 2010 (Ecotec Research and Consulting Ltd.), werth diwylliannol amgylchedd hanesyddol Cymru.

Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?

Cadarnhaol:
 Negyddol:
 Niwtral:
 Anhysbys:

Penderfyniad yn dilyn yr Asesiad

- | | |
|--|-------------------------------------|
| 1. Dim newid sylweddol | <input checked="" type="checkbox"/> |
| 2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau | <input type="checkbox"/> |
| 3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru | <input type="checkbox"/> |
| 4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno | <input type="checkbox"/> |

Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:

Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:

Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?

Roedd ymgynghoriad eisoes wedi'i gynnal yn ystod 2012 a 2013.

CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO

Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?

Cyn cyflwyno'r Bil, ystyriwyd a ellid cynnwys enwau lleoedd Cymraeg ynddo, ond penderfynwyd bod gwarchod enwau lleoedd y tu allan i'w gwmpas. Fodd bynnag, yn ystod Cofnod 1 o'r broses graffu, cafodd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a

Llywodraeth Leol dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig am rôl enwau lleoedd hanesyddol o ran rhoi darlun o dreftadaeth Cymru. Yng Nghyfnod 2, cyflwynodd Llywodraeth Cymru welliannau i'r Bil i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru ac i'w gwneud yn ofynnol i gofnodion amgylchedd hanesyddol ddarparu mynediad at y rhestr honno.

Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?

Caiff y gwaith o ddarparu'r cofnodion amgylchedd hanesyddol, naill ai gan yr awdurdodau cynllunio lleol neu drwy gorff arall megis ymddiriedolaethau archeolegol Cymru, ei fonitro oherwydd bydd gan bob sefydliad bolisi iaith Gymraeg y bydd yn rhaid iddo gydymffurfio ag ef. Yn ogystal, bydd cyfeiriad penodol at ofynion Safonau'r Gymraeg yn y canllawiau statudol.

Mae'n debygol y caiff y rhestr enwau lleoedd hanesyddol ei ddirprwyo i gorff cyhoeddus arall, megis y Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Er y bydd yn cymryd cryn amser i sefydlu'r rhestr, mae'r adnodd yn cyflwyno llawer o gyfleoedd hirdymor ac mae angen archwilio i hyn yn llawn.

Pan gaiff y panel cynghori ei sefydlu gyntaf, bydd yr aelodau yn cael hyfforddiant sy'n cynnwys blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Caiff pwysigrwydd y Gymraeg, a'r cyfraniad y mae'r amgylchedd hanesyddol yn ei wneud at gydnabod hyn, ei integreiddio yn y rhaglen.

Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?

Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg

Gallai cyfraniad yr amgylchedd hanesyddol at yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru fod yn faes y mae'r panel cynghori yn penderfynu ei fod yn flaenoriaeth ar gyfer rhagor o waith a dadansoddi. Cynigir rhaglen waith tair blynedd i'w chytuno gan Weinidogion Cymru yn y Bil.